Mai 2019

Annwyl Riant / Warcheidwaid,

Mae'n bleser cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y wisg ysgol newydd ar gyfer Medi 2019.

Ysgol Isaf: Y wisg ysgol newydd yn ddymunol gyda'r hen wisg yn dderbyniol hyd at Orffennaf 2020.

Bl 5 a 6: Y wisg ysgol newydd yn ddymunol gyda'r hen wisg yn dderbyniol hyd at Orffennaf 2020.

Bl 7: Gwisg newydd yn orfodol.

Bl 8: Gwisg newydd yn ddymunol gyda'r opsiwn i wisgo trowsus du / sgert ddu (hyd at y ben-glin), crys polo haf gwyn a'r siwmper ysgol bresennol hyd at Orffennaf 2020.

Bl 9/10: Gwisg newydd yn orfodol ond gyda'r opsiwn i wisgo trowsus du / sgert ddu (hyd at y ben-glin) hyd at Orffennaf 2020.

Bl 11: Gwisg newydd yn orfodol ond gyda'r opsiwn i wisgo trowsus du / sgert ddu (hyd at y ben-glin) a chrys gwyn / blows wen. Mae hefyd opsiwn i wisgo Blaser Bl 12 gyda thei'r Ysgol Uchaf hyd at Orffennaf 2020.

Bl 12: Gwisg newydd yn orfodol.

Bl 13: Gwisg bresennol gyda logo Ysgol Gyfun Garth Olwg ar y Blaser am 2019-20 yn unig.

Gwisg Addysg Gorfforol: Gwisg newydd a'r hen wisg yn dderbyniol nes Gorffennaf 2021

<u>Canllawiau a Gwybodaeth Ychwanegol</u>

- Bydd crys / blows llewys hir a byr yn dderbyniol ond nid llewys ¾ yn yr Ysgol Uchaf a Hŷn.
- Esgidiau lledr plaen du. Gweler canllawiau Esgidiau.
- Cotiau plaen unlliw Du/Nefi. Dim logo amlwg. Gweler canllawiau Cotiau.
- Sanau gwyn yn dderbyniol i ddisgyblion Meithrin – Bl 6.
- Sanau Du / Llwyd tywyll / Nefi. O leiaf 5cm uwchben y pigwrn ac islaw'r ben-glin.
- Teits llwyd tywyll ar gyfer yr Ysgol Isaf, Ganol ac Uchaf. Teits Du ar gyfer yr Ysgol Hŷn.
- Steil gwallt o fewn rheolau'r ysgol. Gweler canllawiau Steil Gwallt.
- Gemwaith: 1 pâr o glustlysau cynnil yn dderbyniol. Gweler canllawiau Gemwaith.
- Bydd opsiwn i ddisgyblion yr Ysgol Isaf ac Ysgol Ganol wisgo gwisg ffurfiol h.y. crys/blows glas golau a thei, gogyfer digwyddiadau swyddogol yn unig. e.e. Eisteddfodau.
  Byddwn yn darparu gwybodaeth bellach cyn y digwyddiadau yma yn 2019-20.
- Byddwn yn cadarnhau'r wisg Addysg Gorfforol yn fuan, fodd bynnag bydd Hwdis a Thopiau Ymarfer swyddogol yr ysgol yn cael eu caniatáu ar gyfer gweithgareddau Addysg Gorfforol yn unig.

Mae blaseri gyda logo'r ysgol ar gael o'r Welsh Shop. Mae'r rhain yn gwisgo'n dda, wedi eu cynhyrchu'n foesegol ac wedi eu prisio'n deg o gymharu ag ysgolion eraill. Mae'r ysgol yn argymell y blaseri yma i rieni. Fodd bynnag, mae modd prynu blaseri o siopau eraill ond eu bod nhw'n cydymffurfio gyda'r canllawiau swyddogol a bod logo'r ysgol wedi ei frodio i'r flaser. Mae'r Welsh Shop yn fwy na bodlon rhoi cymorth pellach i chi ar hyn a byddant yn cynnig gwasanaeth brodio ar gyfer blaseri sy'n cydymffurfio gyda'r steil swyddogol.

Dylai siwmperi, crysau chwys a'r gardigan ysgol gael eu brodio gyda logo'r ysgol. Nid oes angen brodio'r logo ysgol i Grysau Polo os ydynt yn cael eu gwisgo o dan eitemau eraill o'r wisg ysgol, fel arall dylid brodio'r Crysau Polo gyda'r logo swyddogol.
O fis Mehefin bydd y wisg ysgol ar gael o'r Welsh Shop sydd hefyd yn darparu gwasanaeth archebu ar-lein www.welshcymruclothing.com. Mae'r siop hefyd yn darparu gwasanaeth brodwaith swyddogol ar gyfer eitemau eraill o'r wisg sy'n cydymffurfio'n llawn gyda lliwiau a steil swyddogol yr ysgol.
Os ydych yn prynu blaseri neu eitemau eraill gan arwerthwyr eraill, rydym yn eich cynghori'n gryf i gadw'r tagiau ar yr eitemau dan sylw. Yn yr achos os fydd angen i chi ddychwelyd yr eitemau yma gan nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r wisg swyddogol, bydd modd i chi dderbyn ad-daliad llawn a rhoi cynnig arall i brynu gwisg addas a hynny heb gostau ychwanegol. Dylai pob rhiant weithredu'r synnwyr cyffredin yma wrth brynu'r wisg newydd gan y bydd hyn yn siwr o osgoi unrhyw siom a rhwystredigaeth. Mae'r Welsh Shop yn medru darparu cyngor hyd yn oed os ydych am brynu gwisg gan arwerthwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth o ran steil a lliwiau / pantonau penodol.

Rydym yn llwyr ymwybodol bod trosi i'r wisg newydd yn mynd i fod, o bosib, yn her ariannol i'r teuluoedd hynny sy'n hawlio prydau ysgol am ddim, ac felly byddwn yn darparu grant o £80 y plentyn (Ysgol Isaf) a £125 y plentyn (Ysgol Ganol, Uchaf a Hŷn) ar gyfer 2019-20. Rydym hefyd yn barod i roi cymorth ariannol i deuluoedd eraill sy'n gweithredu'n ddyddiol ar y ffin tlodi fel modd o hwyluso'r trosglwyddiad i'r wisg newydd. Mae'r ffurflen gais wedi ei gynnwys yn y pecyn hwn a dylid cyflwyno'r cais i'r Rheolwr Cyllid, Sarah Dunkerton (Adran Weinyddol Ysgol Gyfun Garth Olwg) erbyn y 14eg o Fehefin, 2019. sarahdunkerton@gartholwg.cymru

Yn y cyfamser rydym yn gweithio'n ddiwyd ar gyfer agor Ysgol Garth Olwg ym mis Medi.
Cymerwn y cyfle i ddiolch i chi eto am eich cymorth a'ch cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi i sefydlu ein hysgol newydd arloesol gyda'n gilydd ym mis Medi.
Ymlaen Garth Olwg Ymlaen!

Yn gywir,

Trystan Edwards Prifathro	Julie Barton Cadeirydd y Corff Llywodraethu Dros Dro	Alex Harden Is-gadeirydd y Corff Llywodraethu Dros Dro

May 2019

Dear Parent / Guardian,

It is with great pleasure that we provide further guidance regarding the new school uniform for September 2019.

Lower School: New uniform desirable; old uniform continues to be acceptable.

Yr 5 & 6: New uniform desirable; old uniform continues to be acceptable until July 2020.

Yr 7: New uniform compulsory.

Yr 8: New uniform desirable with the option to wear black trousers / skirt (knee length), white summer polo shirt & existing school jumper will be acceptable until July 2020.

Yrs 9/10: New uniform compulsory with the option to wear black trousers / skirt (knee length) until July 2020.

Yr 11: New uniform compulsory with the option to wear black trousers / skirt (knee length) and white shirt / blouse. There is also an option to wear the Year 12 Blazer combined with the Upper School tie until 2020.

Yr 12: New uniform compulsory.

Yr 13: Current uniform with Ysgol Gyfun Garth Olwg logo on the Blazer for 2019-20 only.

Physical Education Kit: Both the old and new kits will be acceptable until July 2021.

Further Information & Guidance

- Long and Short Sleeve Shirts / Blouse are acceptable (¾ length sleeves not permitted) for the Upper & Senior Schools.
- Plain Black Leather Shoes. See Shoe guidance.
- Plain Black / Navy Coats. No large logos. See Coat guidance.
- White socks permitted for Meithrin – Yr 6 pupils.
- Black / Charcoal Grey / Navy socks. At least 5cm above the ankle and below the knee.
- Charcoal grey tights for Lower, Middle and Upper School. Black tights for Senior School.
- Hairstyle to comply with school rules. See Hairstyle guidance.
- Jewellery – 1 pair of plain, subtle studded earrings permitted. See Earring guidance.
- Lower & Middle School pupils will have the option to wear light blue shirt/blouse & tie for formal events e.g. Eisteddfodau, but not for everyday uniform.
  Further guidance will be provided prior to these events in 2019-20.
- PE Kit will be clarified at a later date, however Official Hoodies / PE Training Tops will be permitted for PE activities only.

School blazers embroidered with the Garth Olwg logo are available from the Welsh Shop. These blazers are hard wearing, produced ethically and are reasonably priced in comparison to blazers required for other schools. The school recommends these blazers to parents. However, it is also possible to buy blazers from other retailers, provided that they conform to school uniform guidelines and are embroidered with the school logo. The Welsh Shop are more than happy to provide specific guidance with regards to the school blazers on request. Furthermore, The Welsh shop will provide embroidery service for blazers that comply with school guidelines.

Jumpers, cardigans and sweatshirts should be embroidered with the school logo. Polo shirts are not required to be embroidered with the school logo, provided they are being worn underneath a jumper, cardigan or sweatshirt. However, if they are being worn as a single item they will be required to display the school logo.

The new school uniform will be sold online and in store by The Welsh Shop from the beginning of June: www.welshcymruclothing.com. It will also be possible to purchase the official embroidery service for other garments which fully comply with the official uniform style & colours.
If you choose to purchase blazers or other garments from other retailers, we strongly advise you to retain the tags on such garments so that you are able to return any items that don't comply with school guidelines. This will enable you to re-purchase garments which comply with school guidelines without incurring additional costs. We encourage all parents to adopt this common-sense approach to eliminate any possible frustration and disappointment. The Welsh Shop can provide valuable guidance for parents who wish to purchase items from other retailers. Such guidance will include information on pantone colours and suggestions regarding which retailers stock items that comply with the official school colours.

We are fully aware that the change in uniform may be prove to be financially challenging for those families who claim free school meals, and consequently we will allocate a proportion of our Pupil Development Grant to provide financial assistance for 2019-20. Lower School pupils will be entitled to a uniform grant of £80 with Middle, Upper & Senior School pupils receiving £125. We will also set aside funds for families able to confirm that they are subsisting on the poverty line in order to assist with the transition to the new uniform. An application form for this grant is included and should be submitted to the Finance Manager, Miss Sarah Dunkerton (Admin Office at Ysgol Gyfun Garth Olwg) by the 14th of June 2019. sarahdunkerton@gartholwg.cymru

In the meantime, we continue working diligently to prepare for the opening of Ysgol Garth Olwg in September. We would like to take this opportunity to thank you again for your continued support and we very much look forward to continued collaboration as we establish our new pioneering school from September.
Ymlaen Garth Olwg Ymlaen!

Yours faithfully,

Trystan Edwards Headteacher	Julie Barton Chair of Interim Governing Body	Alex Harden Vice Chair of Interim Governing Body